

Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch, gan gynnwys Tecstiliau a Deunyddiau Gwrthiannol

Meddylwch am eitemau yr ydych yn eu hoffi. Nid yw'r eitem ffasiwn eich bod bob amser yn awyddus i wisgo wedi ei greu ar ben ei hunan. Dyluniwyd eich ffôn symudol, gyda'i ymylon lluniaidd, ar sgrin cyfrifiadur. Dechreuodd y car, yr ydych yn dyheu amdano ei oes fel model clai, a lluniwyd yr adeilad yr ydych yn cerdded heibio, yn ei edmygu ac am gael byw ynddo ar sgrin pensaer. Fel dylunydd, rydych ar groesffordd sy'n arwain at nifer o sgiliau. Mae angen i chi fod yn greadigol er mwyn gallu dychmygu siâp a swyddogaeth gwrthrych. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i chi wybod hefyd am brosesau gweithgynhyrchu, deunyddiau, marchnata ynghyd â'r ymrwymiadau cyfreithiol a moesol sy'n effeithio dylunydd.

Cysylltwch â: Mr S. Walker



Cynnwys a Strwythur y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)

Bydd gennych ddau asesiad yn ystod y flwyddyn gyntaf:

Papur ysgrifenedig dwy awr sy'n cyfrif am 20% o'r marc terfynol gyda'r bwriad o asesu'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o:

Ddylunio ac arloesedd

Ddeunyddiau a chydrannau

Ddadansoddi Cynnyrch

Ymarferion diwydiannol a masnachol

Tasg dylunio a gwneud sy'n cyfrif am 30% o'r marc terfynol.

Safon Uwch (U2)

Mae'r ail flwyddyn yn debyg i'r flwyddyn gyntaf:

Bydd gofyn i chi sefyll arholiad ysgrifenedig 2 ½ awr, sy'n cynnwys dwy adran. Bydd y papur hwn yn adeiladu ar y theori a ddysgwyd fel rhan o'r cwrs UG gyda'r bwriad o asesu'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r meysydd canlynol yn ogystal â'r 4 maes ac astudiwyd ar gyfer yr Arholiad DT1:

Cyfrifoldeb Dynol

Cydweithio gyda'r Cyhoedd

Prosesau

Systemau Cynhyrchu a Rheoli

Byddwch yn cyflawni un prosiect dylunio sylweddol wedi'i seilio ar un o wyth thema wedi'u gosod gan CBAC. Bydd yn cyfrif am 30% o'r marc terfynol.



Cyfraniad i Sgiliau Allweddol:

Sut mae cydosod data a'i asesu.

Sut mae ymchwilio ffeithiau a dod i gasgliad.

Sut mae cyfathrebu eich safbwynt yn glir.

Sut mae gweithio fel rhan o dim er mwyn cyflawni canlyniadau.

Sut mae cymryd cyfrifoldeb am ddysgu eich hunan

Dilyniant 18+:

Mae Dylunio Cynnyrch yn cyd-fynd â nifer o bynciau eraill. Os ydych am yrfa mewn dylunio efallai yr hoffech ystyried Celf a Dylunio, Astudiaethau Busnes, TGCh, Mathemateg neu Ffiseg.

Gall Dylunio Cynnyrch eich arwain at nifer o wahanol yrfaedd cyffrous. Mae dylunio cynnyrch neu ddylunio fodurol ar gael. Ond beth am ddylunio ffasiwn? Neu efallai mai tecstilau ar gyfer diwydiant yn apelio'n fwy? Gall y cwrs arwain tuag at yrfa mewn pensaernïaeth, dysgu, gweithgynhyrchu, marchnata a hysbysebu neu beirianeg.